ATODIAD 3
Adroddiad Herio a Chefnogi Perfformiad Adran Amgylchedd (Ebrill - Awst 2026).

Mesuryddion Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Cyfeirnodau y mesurau perfformiad

Parcio a Gwaith Stryd	Rheolwr – Ceri Hughes Thomas
P&GS1	Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon
P&GS2	Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus
P&GS3	Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd
P&GS4	Nifer y gweithiau gan ymgymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol

Traffig, Prosiectau a Llwybrau	Rheolwr – Iwan Ap Trefor
T&P1	Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd
T&P2	Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir
T&P3	Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir

Trafnidiaeth Cyhoeddus	Rheolwr – Rhian Wyn Williams
TC1	Canran o siwrneiau bwys lleol sydd yn cyrraedd ar amser
TC2	Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu

Gwastraff & Ailgylchu	Rheolwr - Chris Rees
G&A1	Perfformiad Ailgylchu Gwynedd
G&A2	Kg o wastraff ac ailgylchu o gartrefi Gwynedd
G&A3	Ymholiadau Methu Casgliadau
G&A4	Perfformiad Canolfannau Ailgylchu Gwynedd

Cynllunio	Rheolwr – Gwawr Teleri Hughes
C1	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio
C2	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth
C3	Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Polisi Cynllunio	Rheolwr – Rebeca Angharad Jones
PC1	Canran o ymatebion ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

Rheolaeth Adeiladu	Rheolwr – Martin Barrow Evans
RH1	Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]
RH2	Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored
RH3	Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle

Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach a Thrwyddedu	Rheolwr – Andrew Lloyd Parry
SM1	Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen
SM2	Nifer achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys
SM3	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd yr Amgylchedd	Rheolwr – Lewis Alun Evans
IA1	Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)
IA2(a) IA2(b)	Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig Canran o Fusnesau Bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol â'r amser rhaglenedig
IA3	Nifer eiddo preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn

Busnes – Swyddfa Cefn	Rheolwr - Alison Wyn Owen
B1	Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir
B2	Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb


Parcio

P&GS1 - Yr amser ar gyfartaledd a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas
Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Mae'r perfformiad yn dangos ymagwedd gadarnhaol, a bod tim bychan o swyddogion yn ymateb yn brydlon iawn i geisiadau a phryderon gan y cyhoedd. Mae gennym gyfanswm o 8 Swyddog Gorfodaeth Parcio llawn amser ac 1 rhan amser yn gweithredu ar draws y sir, gyda gwasanaeth yn weithredol dros 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion yn ddyddiol am holl agweddau sy'n ymwneud â pharcio. Yn aml iawn, nid yw'n bosibl i'r gwasanaeth weithredu oherwydd diffyg pwerau neu gyfyngiadau parcio.
Ar gyfer pwrpas yr ymarferiad hwn, mae'r graff isod yn cynnwys cwynion gan Aelodau Lleol a/neu aelodau'r cyhoedd am gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gyfyngiadau parcio yn unig - felly roedd modd i'r swyddogion weithredu.
Derbyniodd 70% o'r lleoliadau ymweliad o fewn 1 diwrnod, gyda phob lleoliad yn derbyn ymweliad o fewn 3 diwrnod. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i gwynion yn brydlon, er hyn, mae'n bosibl gall cyfnodau salwch neu absenoldebau eraill o fewn y tîm greu oedi.
Nid oedd yn bosibl i'r Swyddogion orfodi mewn 13% o'r lleoliadau oherwydd nad oedd cyflwr y cyfyngiadau yn cyrraedd y safon sy'n caniatáu i orfodi'n gyfreithlon. Mae ceisiadau wedi eu trosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor ar gyfer ail-baentio'r ffordd.
Mae'r gwasanaeth wedi derbyn nifer uchel o gwynion ac ymholiadau'n ystod y cyfnod hwn mewn perthynas a chartrefi modur yn parcio ar rannau o'r briffordd ledled y Sir. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y cwynion ac ymholiadau sy'n ymwneud a lleoliadau lle mae cyfyngiadau parcio mewn grym sydd wedi'u cynnwys yn y data hwn. Nid yw'n ffigyrau yn cynnwys achosion lle nad oes unrhyw gyfyngiadau parico mewn lle. Mewn nifer sylweddol o'r lleoliadau lle codwyd pryderon, nid oes cyfyngiadau parico mewn grym. O Ganlyniad, nid oes gan ein Swyddogion Gorfodaeth Parcio y pwerau i gyflwyno Rhybuddion Talu Cosb (dirwyon) i gartrefi modur yn unig oherwydd eu bod wedi parcio yn y lleoliadau hynny. Gall camau gorfodi gael eu cymryd dim ond pan fo cerbyd yn torri cyfyngiad parcio perthnasol neu reoliad traffig sydd mewn grym. Mae'r Adran wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymwelwyr drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg a negeseuon cyfathrebu eraill. Nod y rhain yw annog ymwelwyr i barchu ein cymunedau a'n hamgylchedd, ymddwyn yn gyfrifol wrth ymweld a'r ardal, a pharcio'n ystyrlon ac mewn modd sy'n dangos ystyriaeth at drigolion a defnyddwyr eraill y briffordd.



Gwaith hyrwyddo – annog pobl i barchu'r ardal wrth ymweld ac amlygu'r ddarpariaeth parcio sydd ar gael

Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg a chyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol








Parcio

P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas
Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Parcio

P&GS2 - Canran o apeliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Caiff dirwyon eu rhoi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymfalchïo yn y gallu i ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw. Mae gan bob modurwr sy'n derbyn dirwy yr hawl i gyflwyno apêl petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad wedi digwydd.

Yn ystod y cyfnod mwyaf diweddar (Ebrill i Awst), cyflwynwyd 7,968 o docynnau – o blith y rheini cyflwynwyd 1,611 apêl, gyda 374 yn arwain at ddileu y tocyn. Mae hynny gyfystyr â 4.6% o'r holl docynnau a gyflwynwyd yn y cyfnod yma.

Ar wahân i sefyllfaoedd eithafol, mae'r mwyafrif o'r apeliadau llwyddiannus gan unigolion sydd wedi prynu tocyn yn y maes parcio ond heb dalu ac arddangos am amryw o wahanol resymau e.e. y tocyn wedi syrthio o'r golwg neu cwsmer wedi mewnbynnu un digid anghywir drwy ddefnyddio'r Ap Talu gyda ffôn neu ddalwyr bathodynnau glas sydd wedi camddeall yr amodau. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, credir ei bod yn rhesymol i ddileu'r ddirwy. Gyda pherthnasedd i'r nifer apeliadau a drosglwyddwyd i'r beirniaid annibynnol am ystyriaeth, noder mai un achos yn unig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod penodol dan sylw, a bod canlyniad yr achos hwn yn ffafriol i'r Cyngor.


Rydym wedi addasu'r mesur i gynnwys nifer cyfanswm y Rhybudd Talu Cosb (RhTC) sydd wedi eu cyflwyno er mwyn rhoi cyd-destun ehangach yn hytrach na dim ond y rhai sydd wedi eu hapelio sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus fel yn flaenorol. Rydym hefyd wedi ychwanegu i nodi'r cyfanswm RhTC gan ddangos os ydynt 'ar stryd' ac 'oddi ar stryd' – gweler y mesur nesaf.


Parcio

P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas
Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Parcio

P&GS3 - Nifer o rybuddion ar y stryd/oddi ar y stryd

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Caiff ymdrech arbennig ei wneud gan Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i sicrhau bod lefel briodol o fonitro'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau bod llif traffig yn symud yn ddi-rwystr. Maent yn cymryd camau gorfodaeth briodol yn erbyn modurwyr sydd yn dewis parcio'n anghyfreithlon ar ddarnau o'r briffordd, gan gynnwys mannau parcio ble caniateir i barcio am gyfnod penodol ar y stryd. Caiff ymdrech hefyd ei roi tuag at fonitro ein meysydd parcio talu ac arddangos sydd yn cynhyrchu arian sylweddol i'r Cyngor.

Mae'r siart yn amlygu bod y rhan fwyaf o'r Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd i fodurwyr rhwng Ebrill ac Awst 2026 am droseddau parcio ar y briffordd e.e. parcio ble mae cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn sengl, dwbl, clirffordd, linell wen amddiffyn mynedfeydd, baeau parcio arhosiad cyfyngedig neu gamddefnyddio baeau anabl (gyda'r gweddill mewn meysydd parcio).

Amlygu'r cynigion parcio – tocynnau parcio ac opsiynau talu ac arddangos

Cyhoeddwyd negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol, yn cynnwys fideo hyrwyddo






[Fideo ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor - (1) Facebook]

Gwaith Stryd

P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Gwaith Stryd

P&GS4 - Nifer gweithiau ar y briffordd sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol.

Enw Rheolwr: Ceri Hughes Thomas **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau rheolaeth ddiogel o'r briffordd

Sylwadau

Mae gweithiau a gyflawnir ar ein strydoedd neu ffyrdd yn rhan o fywyd dydd i ddydd, ac er iddynt achosi anhwylustod i aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, maent yn allweddol i ddarparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar rwydwaith y briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol neu gontractwyr, ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd ble caiff ardaloedd eu haflonyddu am gyfnodau hir o ganlyniad i weithiau. Gosodir amodau penodol i geisio rheoli hyn, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgymerwr allu ymestyn cyfnod.
Er bod mwyafrif o'r gweithgareddau yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol, nid yw'n anghyffredin i redeg dros amser ar adegau am amryw o wahanol resymau e.e. dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar ôl cychwyn tyllu'r ffordd, oedi oherwydd problemau staffio, dibynnu ar gwmnïau eraill, methu cael gafael ar yr offer neu gyfarpar priodol.
Mae'r graff yn cynnwys y data a ddalwyd am y canrannau o'r gweithiau bu redeg heibio'r amserlen wreiddiol yn ystod y cyfnod penodedig.
*Mae'n bosibl bod sefyllfaoedd prin ble mae cwmnïau wedi penderfynu cyflawni gweithiau heb hysbysu'r Gwasanaeth Gwaith Stryd - nid yw'r data yn cynnwys sefyllfaoedd o'r math yma.


Traffig, Prosiectau a Llwybrau

T&P1 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno ar y briffordd

Enw Rheolwr: Iwan Ap Trefor **Pwrpas y Gwasanaeth:** Rheoli a cydlynu rhwydwaith priffyrdd pwrpasol a diogel ynghyd a datblygu a gwireddu prosiectau trafnidiaeth.

Sylwadau

Mae cyfres o dudalennau sy'n cyfarch nifer o ymholiadau cyffredin am faterion traffig yn y broses o gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd y tudalennau yma yn cynnig gwybodaeth gyson a defnyddiol gan gyfarch nifer o'r prif faterion mae ymholiadau sy'n cael eu hanfon at y tîm yn eu holi.
Prif Faterion Traffig a Nodwyd a Chamau sydd wedi eu cymryd fel Ymateb:
• Cwynion am Or-yrru:
Mae nifer sylweddol o gwynion wedi dod i law ynghylch gor-yrru, yn enwedig mewn ardaloedd 20mya. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder amlwg ymhlith trigolion. Gwaith ar y cyd yn digwydd gyda Heddlu a Chynghorau Cymuned a Thref i gymryd camau rhagweithiol lle mae hynny'n bosib.
• Ceisiadau am Fesurau Lleihau Cyflymder:
Mae nifer o geisiadau i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder y tu allan i ardaloedd 20mya a 30mya yn parhau'n gyson, gan adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch diogelwch traffig. Fel uchod, cydweithio gyda phartneriaid i daclo lle bynnag bosib.
• Gwaharddiadau Parcio:
Mae nifer o geisiadau am waharddiadau parcio wedi cynyddu i gymharu ag 2025.
• Ymholydd ddim yn derbyn yr ymateb
Ymholydd yn gwrthod derbyn ymatebion sydd cael ei gyflwyno ac felly yn dod yn ôl gydag ymholiadau pellach.



Amlygu'r gwelliannau a chyfleoedd posib i'r dyfodol

Cyhoeddi datganiadau i'r wasg a negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol



[Dathlu lansio pecyn trafnidiaeth ysgolion - (1) Facebook]



[Hyrwyddo ymgynghoriad - (1) Facebook]

Traffig, Prosiectau a Llwybrau


T&P2 - Nifer o welliannau sydd wedi eu cyflwyno i strwythurau ar rwydwaith llwybrau y sir

Enw Rheolwr: Iwan Ap Trefor

Pwrpas y Gwasanaeth: Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

Sylwadau

Mae'r mesurydd hwn yn arddangos y gwaith amrywiol cyson sy'n cael ei gyflawni i gynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus er budd aelodau'r cyhoedd.
O agwedd strwythurau newydd sydd wedi eu gosod gwelwyd cynnydd sylweddol yn misoedd Gorffennaf (51) ac Awst (40), sydd yn adlewyrchu yn cynnydd mewn gwaith mewnosod yn sgil tywydd ac amodau ffafriol. Yn ogystal gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithrediadau i gynnal llwybrau yn mis Mehefin a Gorffennaf sydd yn debygol o fod yn sgil y galw am waith torri tyfiant yn ystod y cyfnod hwnw.
Mae'r strwythurau newydd sy'n cael eu gosod ar lwybrau yn cynnwys gwelliannau megis giatiau newydd (i gymryd lle camfeydd), ac arwyddion i hwyluso defnydd. Yn ogystal mae'r nifer o weithrediadau i gynnal llwybrau yn cael eu hadrodd, mae'r rhain yn weithrediadau ar wahân ac yn ogystal â gwaith cynnal megis torri tyfiant arwyneb, gwella cyflwr arwyneb ac yn y blaen.
Yn ogystal mae ychwanegu dau brentis i'r tim wedi cynyddu y gallu i ymateb i gwynion ac hefyd y capasiti ychwnegol i wneud gwaith monitro. Fel a nodwyd yn y sylwadau hyn mae patrwm amlwg yn bodoli o agwedd swmp gwaith tymhorol a gyflawnir gan y tîm llwybrau.



Dathlu llwyddiannau a gwaith wedi ei gyflawni

Datganiadau i'r wasg a negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol yn cynnwys fideos hyrwyddo









Dathlu agor Pont Sarnau yn Nyffryn Ogwen a gwaith cynnal a chadw gyda gwirfoddolwyr yn ardal Dolgellau

[Fideo yn hyrwyddo gwaith gyflawnwyd i allu ail-agor Lôn Eifion - (1) Facebook]

Traffig, Prosiectau a Llwybrau

T&P3 - Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir


Enw Rheolwr : - Iwan ap Trefor

Pwrpas y Gwasanaeth:- Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

Sylwadau

Mae'r mesurydd yma'n monitro niferoedd defnyddwyr ar rai o brif lwybrau ar rwydwaith y sir, gan ddefnyddio teclynnau monitro sydd wedi eu gosod mewn lleoliadau penodol.
Mae'r rhwydwaith llwybrau yn adnodd gwych ar gyfer gweithgareddau awyr agored sydd o fudd i lesiant trigolion o safbwynt iechyd meddyliol a chorfforol.
Yn ogystal, maent hefyd yn cynnig cyfleoedd teithio dydd i ddydd cynaliadwy sy'n cefnogi nifer o uchelgeisiau ac amcanion strategol i leihau effaith ar yr hinsawdd ac ar faterion ymarferol fel tagfeydd traffig a phroblemau parcio.
Mae'r lleoliadau presennol yn adrodd ar nifer defnyddwyr llwybr ym Morfa Mawr ger Aberdaron; Rhiw ym Mhen Llŷn; Cerrig y Defaid ym Llanbedrog; Dinas Dinlle; Faenol rhwng Y Felinheli a Bangor; Penrhyn ar gyrion Bangor i gyfeiriad Abergwyngregyn; Eglwys Llanfihangel yn ardal Ardudwy; Pont Coronation yn Llanfair ger Harlech a Fairbourne yn ne Meirionnydd.
Mae'r data hyd at fis Awst eleni yn dangos patrwm tebyg i'r llynedd - gyda llwybrau sydd ger cyrchfannau poblogaidd (ee Dinas Dinlle) wedi gweld y nifer uchaf o ddefnyddwyr. Mae data ar gyfer Rhiw hyd at ddiwedd Ebrill gan fod angen gwaith adfer ar y peiriant cyfrif.
Ar hyn o bryd, mae'r mesurydd yn canolbwyntio ar ddata defnyddwyr mewn lleoliadau penodol ar Lwybr Arfordir Cymru gyda'r bwriad o gynnwys lleoliadau ar draws gweddill y rhwydwaith llwybrau yn y dyfodol.

Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir



Amlygu buddion rhwydwaith llwybrau

Fideo'n dathlu Llwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd a'r gwaith pwysig o gynnal a chadw'r rhwydwaith





Fideo yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd a'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol - (1) Facebook

Trafnidiaeth Cyhoeddus

TC1 - Canran o siwrneiau bws lleol sydd yn cyrraedd ar amser (hyd at 1 munud un gynnar/5 munud yn hwyr)

Enw Rheolwr: Rhian Wyn Williams

Pwrpas y Gwasanaeth: Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

Sylwadau

Er fod newid cytundebol yn y cwmni sy'n dal data amseroedd bysiau yn golygu nad oes mynediad i'r amseroedd prydlondeb ar hyn o bryd, mae swyddogion yn parhau i ymdrin gydag unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd am y maes.
Er nad oes mynediad at ddata perfformiad amserol bysiau trwy Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, rydym yn parhau i ddelio â chwynion unigol, ac mae ein swyddogion yn dilyn fyny unrhyw ymholiadau neu gwynion am amseru bysiau ac yn delio gyda'r materion mewn modd amserol i'r cyhoedd. Mae perthynas dda gyda chwmnïau bysiau sy'n darparu'r gwasanaethau, ac mae hynny'n ein galluogi i ymdrin gydag unrhyw faterion sy'n codi neu rag-rybuddio mewn unrhyw achos pan mae materion allai effeithio ar amseriad gwasanaethau (ee gwaith ffordd ayb).
Gan nad oes cytundeb rhwng y gweithredwyr a'r Llywodraeth am rannu'r data amseroedd bysiau, nid oes gan y Cyngor fynediad i'r data prydlondeb ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i bwyso am fynediad i'r data gan fod hyn yn dystiolaeth bwysig i ni ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau bws lleol.

Dim data ar gael ar hyn o bryd

Trafnidiaeth Cyhoeddus

TC2- Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu

Enw Rheolwr: Rhian Wyn Williams **Pwrpas y Gwasanaeth:** Darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaladwy

Sylwadau


Mae'n galonogol adrodd fod y ffigyrau ar gyfer y cyfnod Ebrill – Awst eleni yn dangos parhad yn y cynnydd cyfanswm siwrneiau o gymharu gyda'r un cyfnod dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd cyfanswm siwrneiau o 965,095 hyd at ddiwedd Awst – cynnydd o 4.7% o'i gymharu gyda'r un cyfnod y llynedd, a 42.5% o gymharu gyda 2024.

Wrth fwrw golwg ar y canrannau sy'n defnyddio tocyn teithio neu'n talu, roedd 35% yn defnyddio tocyn teithio (Ebrill - Awst) gyda 65% yn talu, sy'n debyg i'r rhaniad blynyddoedd blaenorol, ac yn adlewyrchu cynnydd yn nifer ymwelwyr i'r ardal yn ystod cyfnod brig y cyfnod twristiaeth. Mae gwaith rhagweithiol yn digwydd ar hyn o bryd i hyrwyddo'r tocynnau yma ar gyfer teithwyr 60+ trwy bosteri, deunydd ar sgriniau llyfrgelloedd a chyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol – a bydd yr ymgyrch yma yn parhau dros y misoedd i ddod.


Fel sydd wedi ei adrodd yn flaenorol, cyflwynwyd newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith fysiau yma yng Ngwynedd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd clir yn y nifer o deithwyr ar wasanaethau sy'n cael eu gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd gyda chyfran o arian grant, sy'n parhau eto ym mhum mis cyntaf 2026/7 yn adlewyrchu llwyddiant y gwaith yma gan swyddogion y Cyngor fu'n cydweithio gyda phartneriaid wrth ddylunio'r gwaith.

Wrth gwrs, gall sawl ffactor ddylanwadu ar ddefnydd gwasanaethau bws yn gyffredinol – ee sawl penwythnos sydd mewn unrhyw fis ynghyd a'r tywydd – yn enwedig yn ystod penwythnosau, gŵyl y banc a chyfnodau brig arall. Gall nifer y dysgwyr sydd yn talu i deithio ar fysiau cyhoeddus hefyd newid a chael dylanwad.

Nifer teithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu




Canran o deithwyr sydd yn defnyddio tocyn teithio rhad/talu Cyfnod Ebrill 2026- Awst 2026




Amlygu buddion rhwydwaith bysiau Gwynedd

Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i amlygu'r opsiynau teithio sydd ar gael ar fysiau yng Ngwynedd







Perfformiad Ailgylchu Gwynedd (GA1)


Enw Rheolwr : - Roland Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth:- Darparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu dibynadwy, cynaliadwy ac effeithlon sy'n helpu trigolion a busnesau Gwynedd i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

Sylwadau

Er bod perfformiad ailgylchu Gwynedd wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf, o tua 55% i dros 65%, mae'r cynnydd wedi arafu yn y blynyddoedd diweddar. Yn 2025/26 roedd y gyfradd ailgylchu yn 64%, o'i gymharu â 65.3% yn 2024/25. Er bod newidiadau i'r ffordd y caiff coed eu hadrodd wedi cyfrannu at y gostyngiad, mae'n bwysig cydnabod bod angen camau pellach i wella perfformiad yn gyffredinol. Mae Gwynedd eisoes yn darparu gwasanaeth sy'n cyd-fynd â glasbrint Llywodraeth Cymru, gan gynnwys casgliadau bwyd ac ailgylchu wythnosol, casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos, gwasanaeth gwastraff gardd fforddiadwy ac wyth Canolfan Ailgylchu, sef y nifer uchaf yng Nghymru. Mae'r seilwaith a'r gwasanaethau felly yn eu lle, ond mae angen cynyddu cyfranogiad trigolion a lleihau'r gwastraff ailgylchadwy sy'n parhau i fynd i'r ffrwd weddilliol. Mae'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu newydd yn nodi cyfres o fesurau i ysgogi'r cam nesaf o welliant, gan gynnwys adolygu capasiti biniau gweddilliol, ehangu'r ystod o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, cryfhau gweithgareddau addysg ac ymwybyddiaeth, cyflwyno rhaglen addysg ffurfiol mewn ysgolion cynradd, a mabwysiadu dull mwy pendant o ran gorfodaeth lle bo angen. Nod y mesurau hyn yw cynyddu cyfraddau ailgylchu a chefnogi'r Cyngor i gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70%.

Canran y flwyddyn and Targed Cenedlaethol 2025 by Cyfnod



Hyrwyddo gwasanaethau ailgylchu

Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol i amlygu'r buddion



[Fideo'n amlygu budd ailgylchu bwyd - (1) Facebook]





[Fideo am ymweliad diweddar i safle trin gwastraff bwyd GwyriAD a'r trawsnewid ar safle Llwyn Isaf gerllaw er budd natur a bioamrywiaeth(1) Facebook]


Kg o wastraff ac ailgylchu o gartrefi Gwynedd (GA2)

Enw Rheolwr : - Roland Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth:- Darparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu dibynadwy, cynaliadwy ac effeithlon sy'n helpu trigolion a busnesau Gwynedd i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

Sylwadau

Mae'r dangosydd hwn yn mesur faint o wastraff ac ailgylchu a gynhyrchir ar gyfartaledd gan aelwydydd Gwynedd (kg). Mae dadansoddiad o gynnwys y bin gweddilliol yn dangos bod tua 57% o'r deunydd sy'n cael ei roi ynddo yn gallu cael ei ailgylchu drwy ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael. Mae modelu perfformiad yn awgrymu y byddai cynnydd o tua 3% yn y gyfradd ailgylchu yn gofyn am welliant o oddeutu 12% mewn ailgylchu sych, 25% mewn ailgylchu bwyd, gostyngiad o 12% mewn gwastraff gweddilliol, a chynnydd bach mewn gwastraff gardd. Mae'r potensial i gynyddu cyfranogiad yn y gwasanaeth gwastraff gardd yn fwy cyfyngedig oherwydd y gost i drigolion. Mae hyn yn ategu'r heriau a nodwyd o dan fesur G&A1. O ganlyniad, mae'r potensial ar gyfer gwelliant pellach yn debygol o ddibynnu'n bennaf ar fesurau sy'n annog newid ymddygiad, gyda lleihau capasiti'r bin gweddilliol neu adolygu amlder ei gasglu yn debygol o gael yr effaith fwyaf a'r cyflymaf ar berfformiad ailgylchu.




Gwastraff ac Ailgylchu


G&A3 - Ymholiadau 'Methu Casgliadau'

Enw Rheolwr: Chris Rees
Pwrpas y Gwasanaeth: Darparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu dibynadwy, cynaliadwy ac effeithlon sy'n helpu trigolion a busnesau Gwynedd i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu

Sylwadau

Mae'r mesurydd hwn yn dangos nifer yr ymholiadau gwasanaeth a dderbynnir yn fisol mewn perthynas â chasgliadau gwastraff ac ailgylchu. Mae'n bwysig nodi nad yw'r data yn gallu gwahaniaethu rhwng ymholiadau dilys ac annilys. Er enghraifft, gall ymholiad gael ei gofnodi fel cwyn am fin wedi'i fethu pan nad oedd y bin wedi'i gyflwyno'n gywir neu mewn pryd, neu gall mwy nag un ymholiad gael ei gyflwyno am yr un digwyddiad. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig ystyried y ffigurau yng nghyd-destun cyfanswm y gwaith a gyflawnir gan y gwasanaeth. Mae'r ail graff yn dangos nifer yr ymholiadau fel canran o gyfanswm y cynwysyddion a gesglir. Mae hyn yn dangos bod y gwasanaeth yn casglu tua 99.8% o gynwysyddion/biniau heb unrhyw ymholiad gan y cwsmer, sy'n cyfateb i oddeutu 413,200 o gasgliadau llwyddiannus y mis. Er bod pob ymholiad yn cael ei ymchwilio a'i drin o ddifri, mae'r data yn dangos lefel uchel iawn o berfformiad gweithredol o ystyried maint y gwasanaeth a ddarperir ar draws Gwynedd.





Gwastraff & Ailgylchu (GA4)


Perfformiad Canolfannau Ailgylchu Gwynedd

Enw Rheolwr : - Endaf Williams

Pwrpas y Gwasanaeth:- Galluogi trigolion Gwynedd i ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff yn gyfrifol.

Sylwadau

Mae'r mesurydd hwn yn dangos perfformiad ailgylchu Canolfannau Ailgylchu Gwynedd, gan fesur cyfran y deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio neu eu hanfon i'r ffrwd gwastraff gweddilliol. Mae perfformiad ein trigolion wrth wahanu deunyddiau yn y canolfannau yn uchel, gyda chyfradd adfer o tua 82%, ac mae hyn yn cyfrannu tua 15% tuag at gyfradd ailgylchu gyffredinol y Cyngor. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y ffordd y caiff rhai deunyddiau eu cyfrif o fewn y fframwaith perfformiad cenedlaethol. Er enghraifft, er bod trigolion yn gwahanu pren yn gywir i'w ailbrosesu, nid oes modd ailgylchu rhywfaint o'r pren i safon sy'n bodloni gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, caiff pren ei losgi i gynhyrchu ynni ac ni ellir ei gyfrif tuag at y gyfradd ailgylchu statudol. Mae hyn yn lleihau perfformiad swyddogol y canolfannau o oddeutu 82% i tua 66%, gan gael effaith sylweddol ar berfformiad ailgylchu cyffredinol y Cyngor. Her arall dros y blynyddoedd nesaf fydd cynyddu lefelau ailddefnyddio Er bod ailddefnyddio yn cynnig mwy o fudd amgylcheddol nag ailgylchu, mae angen mwy o adnoddau a buddsoddiad i'w gyflawni. Serch hynny, mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu mentrau ailddefnyddio fel rhan allweddol o'i ymrwymiad i leihau gwastraff a chefnogi'r economi gylchol. Mae'r siart hwn yn dangos y gwaelodlin heddiw.



Diolch ac addysgu - gwasanaethau ailgylchu

Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol i amlygu'r buddion

Cyngor Gwynedd
Mehefin 8 ·

Canolfannau Ailgylchu Gwynedd – Diolch am eich cefnogaeth!

Rydym wedi bod yn gwella trefniadau yn y canolfannau ailgylchu, ac yn gofyn i drigolion sy'n dod â sachau du i ddidoli'r cynnwys cyn eu rhoi yn y sgipiau.

Diolch i bawb am chwarae eu rhan – mae'n gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn helpu i gynyddu faint sy'n cael ei ailgylchu.

Beth allwch chi ei wneud?
• Didoli gartref cyn dod i'r canolfan. Rydym hefyd wedi trefnu mannau penodol i ddidoli cynnwys y sachau duon yn y canolfannau os na fyddwch wedi gwneud cyn ymweld.
• Defnyddio'r sgipiau ailgylchu wedi'u labelu'n glir.
• Gofyn i'n staff os oes angen cymorth – maen nhw yno i helpu.

Dim ond yr eitemau nad oes modd eu hailgylchu ddylai fynd i'r sgip gwastraff domestig.

Diolch am eich cydweithrediad!

I drefnu apwyntiad: https://orlo.uk/ChgrF



Cyngor Gwynedd
Mai 12 ·

♻️Roedd hi'n bleser croesawu criw o ddysgwyr o Coleg Glynllifon draw i ganolfan Ailgylchu'r Cyngor ym Mangor yn ddiweddar, fel rhan o'u hastudiaethau Sgiliau Byw a Gwaith a Cam i Waith.
Roedd yr ymweliad yn rhan o wythnos amgylchedd y Coleg – ar ôl casglu ac ailgylchu sbwriel o amgylch y Coleg, daeth y grŵp draw i weld i ble mae'r deunyddiau'n mynd a beth sy'n digwydd iddyn nhw wedyn. Cafwyd hefyd gyfle i ddysgu am y gwahanol swyddi yn y maes.
Roedd hi'n wych gweld gymaint o frwdfrydedd – ac atgoffa pawb ohonom pa mor bwysig yw ailgylchu i ddiogelu ein hamgylchedd 🌍
Diolch yn fawr i chi gyd am ymweld – roedd yn braf cael eich croesawu!
Am ragor o wybodaeth am ganolfannau ailgylchu Cyngor Gwynedd ewch draw i 👉
https://orlo.uk/4gGGL



Cyngor Gwynedd
Mai 26 ·

Wrth i'r tywydd gynhesu, mae mwy ohonom yn treulio amser yn mwynhau'r ardd.
Cofiwch y gallwch drefnu eich casgliad gwastraff gardd am 2026 yn sydyn ac yn syml ar ein gwefan:
https://orlo.uk/7R53v



Cyngor Gwynedd
Awst 6 ·

⚠️ Cofiwch beidio â rhoi poteli nwy (megis bwtan, propan ac ati) yn eich bin ailgylchu cartref.
Maent yn gallu achosi risg diogelwch difrifol i staff ac i gyfarpar prosesu gwastraff.
Yn hytrach, ewch â nhw i un o Ganolfannau Ailgylchu'r Cyngor er mwyn eu gwaredu'n ddiogel.
📍 Mwy o wybodaeth am eich canolfan leol ac am sut i archebu slot yma ➡️ https://orlo.uk/Q8c3Y
Diolch am eich cydweithrediad. ♻️





Cyngor Gwynedd
Gorffennaf 16 ·

Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu

Cofiwch: Er lles a diogelwch ein staff ac eich cymuned, ni ddylai gwastraff clinigol, gan gynnwys nodwyddau, fynd yn y bin ailgylchu nac yn y gwastraff cyffredinol.

Gallwch wneud cais drwy eich meddyg neu nyrs gymunedol i drefnu casgliad gwastraff clinigol gan y Cyngor. I waredu offer meddygol arall yn ddiogel, cysylltwch â'ch fferyllfa leol.

Diolch am eich cefnogaeth.


www.gwynedd.llyw.cymru/ailgylchu



Cynllunio
C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Cynllunio
C1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio

Sylwadau


Yn y cyfnod diweddaraf (Mehefin i Awst 2026), derbyniwyd 197 o geisiadau newydd a phenderfynwyd 153 o geisiadau. Mae'r ddau ffigwr yma eto ychydig yn is na'r hyn adroddwyd ar gyfartaledd yn y cyfnod blaenorol, ond ar gyfartaledd yn gyson gyda'r nifer adeg yma yn 2025, ac felly ar y cyfan ystyrir fod y sefyllfa yn gyson.
Mae'r nifer o geisiadau sydd yn y system heb benderfyniad wedi codi eto o 579 i 592 o ganlyniad i'r nifer is o geisiadau wedi eu penderfynu yn mis Awst.
Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd dros y cyfnod yma wedi cynyddu i 202 diwrnod. Wedi edrych ar y mater yma yn fanylach, mae'n ymddangos fod 4 cais wedi derbyn penderfyniad o fewn cyfnod dros 1000 o dyddiau, a drwy hepgor y rhai yma mae'r cyfartaledd yn disgyn i 160 diwrnod. Mae nifer uchel o geisiadau (47%) yn derbyn penderfyniad o fewn 100 diwrnod. Mae 85% yn derbyn penderfyniad o fewn 300 diwrnod. Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd ar gyfer y ceisiadau penodol yma yn 111 diwrnod. Mae cyfanswm o 21 cais wedi derbyn penderfyniad dros 300 diwrnod (gan gynnwys y 4 dros 1000 o dyddiau), ac mae'r ceisiadau yma yn dueddol o fod yn destun trafodaeth gyda'r asiant neu ymgeisydd neu wedi bod am gyfnod hir heb wybodaeth digonol.
Caniatawyd 85% o'r ceisiadau yn y cyfnod yma (Mehefin i Awst) ac mae nifer uchel o'r gweddill wedi eu gwrthod yn dilyn cyfnod hir o ddisgwyl am wybodaeth pellach ond heb ei dderbyn.
Yn y cyfnod yma, mae oddeutu 55% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol (sef unai o dan 56 diwrnod neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno), sydd yn sylweddol is na'r cyfnodau blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r cyfnod yma sy'n dilyn ymddeoliad 3 Uwch Swyddog ers mis Rhagfyr 2025 a'r ymdrech i waredu nifer uchel o hen geisiadau. Er hyn, mae'n amlygu fod nifer o benderfyniadau hefyd yn parhau i gael eu gwneud yn amserol, neu gyda cytundeb o estyniad amser gyda'r ymgeisydd/asiant, a hynny er gwaethaf y sefyllfa staffio bresennol a'r ymdrech i glirio llwyth gwaith sy'n sefyll.
Fel sydd eisoes wedi ei amlygu, mae'r Gwasanaeth wedi mynd drwy gyfnod o gynllunio'r gweithlu ac mae'r Gwasanaeth wedi ôl-lenwi 2 rôl Uwch Swyddog Cynllunio gyda phenodiadau mewnol yn dilyn ymddeoliadau. Mae 1 Swyddog Cynllunio wedi ymuno gyda'r Gwasanaeth ac disgwylir i o leiaf 1 Hyfforddai newydd ymuno gyda'r Gwasanaeth yn yr Hydref. Wrth i staff newydd, sy'n llai profiadol ar y cyfan, ymgyfarwyddo â'u rolau, y systemau mewnol a'r drefn gynllunio, gall hyn arwain at rai heriau ac oedi wrth ddelio gyda'r llwyth gwaith. Mae eitem wedi ei gynnwys yn y bwletin aelodau yn amlygu'r penodiadau uchel a'r gwaith cynllunio gweithlu ayb, gyda nodyn byr wedi ei gynnwys ar ebyst sy'n mynd allan i ymgeiswyr/asiantwyr er mwyn eu hysbysu o'r sefyllfa. Mae'r sefyllfa staffio yn eithaf bregus ar hyn o bryd o ganlyniad i ddiffyg profiad a lefel uchel o geisiadau sydd angen eu penderfynu, er gwaethaf fod y Gwasanaeth yn amlygu'r sefyllfa.


Cynllunio

C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Cynllunio

C2 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gau ceisiadau am wasanaeth

Sylwadau


Yn y cyfnod yma, derbyniwyd 127 o ymholiadau a cheisiadau am gyngor ymlaen llaw a chafodd 256 o achosion eu cau (unai roedd ymateb wedi ei ddarparu neu oherwydd nad oeddynt yn ddilys). Mae'r llwyth gwaith yn parhau yn gyson, ac mae'r gwaith i glirio ôl-groniad a chadw ar ben ymholiadau cyfredol yn parhau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o ddyddiau i ymateb, yn enwedig ym mis Gorffennaf.
Mae'r nifer o ymholiadau sy'n agored wedi lleihau i 68, ond nodir fod yna ôl-groniad o ymholiadau yn disgwyl i'w dilysu dros cyfnod yr haf oherwydd gwyliau a pwysau gwaith ceisiadau cynllunio.

Cynllunio

C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Enw Rheolwr: Gwawr Teleri Hughes
Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Cynllunio

C3 - Nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio sydd wedi cau

Sylwadau

Mae'r gwaith yma yn ymwneud a delio gyda chwynion am achosion honedig torri rheolau cynllunio. Oherwydd eu natur, maent yn gallu bod yn faterion cymhleth, ac er ymdrechion diffuant, gall cau achos gymryd amser oherwydd yr angen i ymweld safle, ystyried tystiolaeth gwahanol, ymateb i'r cwynwr a dod i benderfyniad proffesiynol. Agorwyd 85 o gwynion newydd a chaewyd 62 o achosion, mae'r nifer o gwynion newydd yn parhau'n gyson, ond mae'r nifer o achosion sydd wedi cau wedi cynyddu oherwydd fod aelod ychwanegol o staff wedi ei drosglwyddo i'r Tim Gorfodaeth. Mae hyn yn cael effaith ar y Tim Rheolaeth Datblygu a nodir fod pob swyddog erbyn hyn yn delio gydag achosion gorfodaeth ac nid dim ond yr achosion hynny sydd angen sylw penodol sy'n cael ei drosglwyddo i'r Tim Gorfodaeth am sylw. Mae cymorth gweinyddol wedi ei ffurfioli erbyn hyn. Mae'r Tim hefyd wedi bod yn cwblhau gwaith cefndirol ar gyfer sicrhau cofrestr cyfredol o Rybuddion Gorfodaeth ac mae'r gwaith yma yn cael ei gwblhau gan aelod o staff tymhorol dros gyfnod yr haf. Mae bwriad i barhau i ddelio gyda'r ôl-groniad, sydd yn cynyddu'n raddol, yn dilyn trosglwyddo Swyddog Cynllunio i'r Tim.
Cyhoeddwyd 4 Rhybudd Gorfodaeth a 5 Rhybydd Tramgwydd Cynllunio ac mae'r tîm yn parhau yn y broses o ddelio gyda sawl apêl cynllunio yn erbyn rhybuddion gorfodaeth.
Mae'r gwaith o reoli a monitro arwyddion di-ganiatad / goleuedig yn ein prif ganolfannau yn parhau, gyda nifer o achosion wedi eu datrys erbyn hyn.
Mae achos o eiddo blêr wedi ei ddatrys o ganlyniad i gydymffurfio gyda rhybudd gorfodaeth, a'r eiddo wedi ei dacluso erbyn hyn.

Polisi Cynllunio

PC1 - Canran o ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais a roddwyd o fewn amser.

Enw Rheolwr: Rebeca Angharad Jones

Pwrpas y Gwasanaeth: Hwyluso datblygiadau priodol/addas er lles cymunedau, yr economi ac amgylchedd


Sylwadau

Mae'r data ar gyfer cyfnod ers Ebrill eleni yn dangos bod y cyfartaledd dros y 5 mis cyntaf yn 80% o ymatebion i geisiadau cynllunio wedi'u darparu o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Wrth gymharu efo'r un cyfnod y llynedd (91%), mae hyn yn is na'r lefel y byddai'r Gwasanaeth yn dymuno ei weld, ond yn adlewyrchu'r cyfnod heriol o newid o fewn y tîm yn dilyn newidiadau staffio sylweddol.

Yn ystod y cyfnod hwn, gadawodd dau Arweinydd Tîm profiadol iawn y Gwasanaeth. Er bod un o'r swyddi wedi'i llenwi'n llwyddiannus drwy benodiad mewnol, mae'r ail swydd yn parhau'n wag. Golyga hyn fod y tîm polisi cynllunio dau swyddog profiadol i lawr, ac mae hyn wedi cael effaith ar gapasiti a gallu'r gwasanaeth i gynnal lefelau perfformiad blaenorol. Cafwyd sgyrsiau efo Rheolwr Cynllunio i'w gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa ac i esbonio os oes angen cymorth brys i gysylltu a'r tîm.

Bu cyfnod o addasu wrth i'r tîm ymateb i'r newidiadau hyn, ac mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i roi trefniadau a phrosesau newydd ar waith i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae aelodau'r tîm hefyd yn gorfod paratoi sylwadau ac ymatebion ar feysydd gwaith nad ydynt o reidrwydd yn arbenigwyr ynddynt, sy'n golygu bod rhai tasgau yn cymryd mwy o amser nag y byddent fel arfer. Fodd bynnag yn y tymor hir mae hyn yn rhoi fwy o wydnwch i'r gwasanaeth.

Serch hynny, mae'r gwaith caled sydd wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf yn dechrau dwyn ffrwyth, ac mae arwyddion cadarnhaol bod y trefniadau newydd yn cyfrannu at welliant graddol yn y gyfradd ymateb. Disgwylir y bydd perfformiad yn parhau i wella wrth i'r trefniadau newydd sefydlu. Fodd bynnag, mae risg tymor byr i ganolig yn parhau, a gall fod rhywfaint o effaith dros dro ar allu'r tîm i symud prif ffrydiau gwaith ymlaen nes bydd y sefyllfa staffio yn fwy sefydlog. Mae trefniadau lliniaru yn parhau i gael eu hystyried a'u gweithredu lle bo hynny'n bosibl.




Rheolaeth Adeiladu

RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Rheolaeth Adeiladu

RH1 - Canran y ceisiadau a benderfynir o fewn amser penodol [5 ac 8 wythnos]

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau

Trosolwg o Berfformiad a Chydymffurfiaeth Statudol: Yn ystod y chwarter diwethaf, profodd y Gwasanaeth ostyngiad yng nghanran y ceisiadau a bennwyd o fewn amserlenni statudol. Roedd hyn yn sgil cyfyngiadau adnoddau staff a dargyfeirio personél technegol i gamau gorfodi blaenoriaeth uchel.
Yn benodol, dargyfeiriwyd nifer sylweddol o oriau swyddogion ac adnoddau gweithredol i reoli achosion strwythurau peryglus a oedd yn gofyn am ymyraethau cymhleth ar unwaith yn y safleoedd canlynol:
• Gwesty'r Corbett Arms
• Tŷ Blenheim, Bangor
• Rhifau 9 a 13 Stryd Fawr, Bangor

Pwysau Deddfwriaethol a Rheoleiddiol (Deddf Diogelwch Adeiladu 2022): Mae'r gwasanaeth yn parhau i lywio'r gofynion statudol trylwyr a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022 a Rheoliadau Adeiladu diwygiedig. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn mynnu bod pob swyddog yn pasio arholiadau proffesiynol a chofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu (BSR) fel Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (RBIs). Mae gweithredu'r gofynion wedi cyflwyno sawl her weithredol hanfodol:
• Lleihau Capasiti: Yn ddiweddar, collodd y gwasanaeth Arolygydd Adeiladu Cofrestredig Dosbarth 2F, a dderbyniodd swydd o fewn Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig (RBCA) yn y sector preifat. Mae'r swydd wag hon yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i reoli llwythi gwaith masnachol cymhleth yng ngogledd Gwynedd.
• Goruchwylio Gorbenion: Er mwyn cynnal cydymffurfiaeth, mae arolygwyr heb eu cofrestru sy'n weddill angen goruchwyliaeth uwch gan staff ardystiedig sydd yn ei dro yn lleihau capasiti uwch swyddogion ymhellach yn ystod cyfnod o lwyth gwaith eithriadol o uchel.
• Risgiau Recriwtio Sector Gyfan: Oherwydd grymoedd y farchnad a gwahaniaethau cyflog sylweddol, mae cadw a recriwtio RBIs cymwys yn parhau i fod yn fygythiad systemig i Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

Lliniaru, cynllunio'r gweithlu, a gwytnwch: Er mwyn gwrthsefyll y pwysau gweithlu hyn, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu cynllun gweithlu strwythuredig ochr yn ochr â threfniadau cymorth a hyfforddiant wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o lefelau cymhwysedd tîm. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau cychwynnol cadarnhaol, gan gynnwys derbyn Arolygydd Adeiladu dan hyfforddiant LABC yn llwyddiannus. Mae'r swydd hon wedi'i sicrhau ar secondiad dwy flynedd ac fe'i hariannir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, gan adeiladu capasiti technegol hirdymor heb effaith gyllideb uniongyrchol ar yr Awdurdod.

Cyfran o'r Farchnad a Chystadleurwydd Masnachol: Er gwaethaf cyfyngiadau adnoddau difrifol a chystadleuaeth yn y sector preifat, mae'r gwasanaeth wedi dangos gwytnwch masnachol cryf. Llwyddwyd i gynyddu cyfran o'r farchnad ar gyfer ceisiadau rheoleiddio adeiladu o 72% i 78% dros y cyfnod. Mae'r twf hwn mewn tirwedd gystadleuol gyda RBCAs yn cael ei briodoli'n bennaf i ddyfynbris mireinio, rhagweithiol a strwythur prisio cystadleuol y gwasanaeth, sy'n parhau i ddenu a chadw cleientiaid datblygu lleol yn llwyddiannus.


Rheolaeth Adeiladu

RH2 - Nifer o achosion gorfodaeth (ddim yn cynnwys adeiladau peryglus) sydd wedi eu cau/sy'n parhau i fod yn agored

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau

Yn ystod cyfnod Ebrill - Awst 2026/27, mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru 6 achos/cais am waith anawdurdodedig, sy'n parhau heb eu cau. Mae nifer yr achosion agored bellach yn 91, sy'n tynnu sylw at yr heriau o ddelio â'r llwyth gwaith presennol tra'n cydbwyso'r amser sydd ar gael ar gyfer elfennau o'r Gwasanaeth sy'n ymwneud â denu ffioedd ac elfennau lle na ellir denu ffioedd.
Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi darparu trefniadau llif gwaith newydd, hyfforddiant staff, ac adroddiadau misol ar gyfer Arolygwyr Adeiladu lle mae nifer o achosion agored wedi'u cau. Gan symud ymlaen oherwydd y newidiadau a wnaed, rydym yn rhagweld parhad y diwygiad cau ffeiliau lle bo'n berthnasol. Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar ddogfen bolisi newydd a gweithdrefnau gorfodi yn unol â'r newidiadau deddfwriaeth newydd i Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2026.



Rheolaeth Adeiladu


RH3 - Nifer o achosion o adeiladau peryglus sydd wedi eu gwneud yn saff ond lle mae dal angen cwblhau gwaith ar y safle

Enw Rheolwr: Martin Barrow Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch rhesymol ar gyfer pobl mewn neu o gwmpas adeiladau, mynediad i gyfleusterau a chadwraeth ynni.

Sylwadau

Mae'n bwysig pwysleisio bod y Gwasanaeth yn sicrhau fod adeiladau peryglus yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn 24 awr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn ystod cyfnod Ebrill i Awst 2025/26, mae'r Gwasanaeth wedi delio â 19 achos o adeiladau peryglus sydd wedi'u gwneud yn ddiogel o fewn 24 awr, gyda 7 achos ar gau. Nid yw achosion adeiladu peryglus ar gau nes bod y gwaith sydd angen ei wneud ar y safle wedi'i gwblhau.
Felly, gyda'r 56 achos yn dal ar agor ar ddiwedd y cyfnod, bu camau gan y Gwasanaeth i wneud yr adeilad yn ddiogel o safbwynt diogelwch y cyhoedd, ond bod angen cwblhau'r gwaith ar y safle neu adennill costau. Rhaid nodi y gall achosion aros ar agor lle mae'r adeilad wedi'i wneud yn ddiogel ac mae'r gwaith ar y safle wedi'i gwblhau, mewn achosion lle mae'r Gwasanaeth wedi gorfod cymryd camau i gyflawni a thalu am waith o ganlyniad i gamau cyfreithiol sy'n ofynnol i adennill costau.
Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi darparu trefniadau llif gwaith newydd, hyfforddiant staff, ac adroddiadau misol ar gyfer Arolygwyr Adeiladu lle mae nifer o achosion agored wedi'u cau. Wrth symud ymlaen oherwydd y newidiadau a wnaed, rydym yn rhagweld parhad o'r diwygiad cau ffeiliau lle bo'n berthnasol. Mae'r achosion gyda'r strwythurau peryglus yng Ngwesty'r Corbett Arms yn Nhywyn, Tŷ Blenheim ym Mangor a 9 & 13 Stryd Fawr ym Methesda yn parhau ac mae angen mewnbwn sylweddol gan y Gwasanaeth ar y cyd â Gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Cyngor o ran sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gyngor cyfreithiol ar y gweithdrefnau adennill costau angenrheidiol ar ôl camau gorfodi.

Achosion strwythurau peryglus



Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu


SM1 - Canran busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen.


Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau

Cwblhawyd 100% o'r archwiliadau risg uchel oedd wedi eu pennu ar gyfer y flwyddyn 2025-26 gan helpu i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd ac anifeiliaid fferm. Ar gyfer 2026-27 mae 50 eiddo categori 'risg uchel' wedi cael eu hadnabod ar draws y Gwasanaeth sydd angen archwiliad. Mae rhain yn eiddo/busnesau sydd yn cael eu hadnabod fel risg uchel oherwydd cymhlethdod/risg gweithgaredd busnes, neu fod hanes a phryder o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Safonau Masnach dros gyfnod o amser. Bydd sawl archwiliad fferm, fel yr arfer yn cael eu dal nôl hyd nes bod yr anifeiliaid yn cael eu casglu fewn oddi ar y tir - i'n galluogi i gael golwg manwl ar y stoc a sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer yr anifeiliaid. Yn yr un modd, mae nifer helaeth o'r archwiliadau yn rhai ar gyfer eiddo sydd yn storio ffrwydron/tán gwyllt, ac felly mi fydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o fis Hydref pan fydd yr eiddo yn storio a gwerthu - gan ddefnyddio'r cyfle yn agos at yr amser gwerthu i'w hatgoffa o ran cyfyngiadau oedran ar gyfer pryniant nwyddau o'r fath. Hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd, mae 26% o'r archwiliadau wedi cael ei cynnal, ac mae hyn gystal a'r blynyddoedd blaenorol sydd yn galonogol.






Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM2 - Canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry

Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Monitro, dylanwadu a sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

Sylwadau

Mae'r mesurydd yma yn amlygu y camau rhagweithiol mae'r Gwasanaeth yn eu cymryd er mwyn diogelu iechyd a lles aelodau'r cyhoedd.
Mae achosion o dor-cyfraith troseddol yn cael eu hadnabod drwy gyfuniad o adroddiadau/pryderon/cwynion sy'n dod i sylw'r Gwasanaeth gan aelodau'r cyhoedd a busnesau, yn ogystal â gwaith rhagweithiol rydym yn ei adnabod fel rhan o archwiliadau i fusnesau. Mae tor-cyfraith troseddol yn cael ei ystyried fel 'torri unrhyw ddeddfwriaeth droseddol y mae Swyddogion Safonau Masnach Gwynedd wedi eu hawdurdodi i orfodi'. Nid yw hyn yn cynnwys materion tor-cyfraith sifil. Mae'r mesur yn ogystal yn ystyried y cyfanswm ôl-groniad o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n parhau yn agored ers i'r mesur ddod yn weithredol (01/04/2024), ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio arnynt i geisio datrys.
Mae'r tîm Gwarchod Defnyddwyr wedi parhau i flaenoriaethu gwaith ymatebol i gudd-wybodaeth yn ymwneud â gwerthiant nwyddau anghyfreithlon ar draws y sir - yn bennaf tybaco a fêps.
Ar 5 Mai 2026, mi fu'r tîm yn llwyddiannus yn diogelu rhybudd cau am gyfnod o 6 wythnos ar eiddo yng Nghaernarfon o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Heddlu 2014. Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad parhaus dros gyfnod o amser i ymarferion masnachu'r siop - gan gynnwys gwerthiant o gynnyrch fêps i blant o dan oed. Yn sgil datganiad i'r wasg rhagweithiol, cafodd yr achos llawer o sylw cadarnhaol yn y wasg, gan gynnwys amlygu'r cydweithio a rhannu gwybodaeth effeithiol sy'n digwydd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach.
Mae'r tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi bod yn canolbwyntio ar allu cau nifer o achosion o dor cyfraith hanesyddol sydd wedi parhau i fod ar waith ar y system, yn ogystal a pharhau â'r gwaith o ymateb i geisiadau am wasanaeth yn ymwneud â materion iechyd a lles anifeiliaid ynghyd â chynnal archwiliadau rhaglenedig i ganolfannau casglu, marchnadoedd da byw ac archwiliadau rhaglenedig yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd amaeth. Noder fod Safonau Masnach wedi bod yn gweithredu hefo llai o gapasiti na'r arfer am gyfnod sylweddol - rydym bellach wedi llwyddo i recriwtio 1 aelod o staff newydd i'r tim Iechyd a Lles Anifeiliaid, ond yn anffodus mae un aelod o'r tim Gwarchod Defnyddwyr i ffwrdd ar absenoldeb tymor hir.

Amlygu ymgyrchoedd a gwaith rhagweithiol Safonau Masnach



Amlygu gwaith sylweddol swyddogion Safonau Masnach i fynd i'r afael â busnesau yn gwerthu cynnyrch anghyfreithlon ayb - Datganiad i'r wasg a hyrwyddo ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor


Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach a Thrwyddedu

SM3 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi

Enw Rheolwr: Andrew Lloyd Parry **Pwrpas y Gwasanaeth:** Sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud a thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

Sylwadau

Mae'r amser prosesu cais trwydded tacsi yn parhau yn amserol iawn, ac yn darparu gwasanaeth cadarnhaol i ymgeiswyr. Mae'r gwaith o brosesu cais am drwydded tacsi yn dasg sydd wedi cael ei flaenoriaethu ers sawl blwyddyn bellach oddi fewn y Gwasanaeth. Mae'r cyfartaledd dyddiad prosesu yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r nifer o ddiwrnodau prosesu o'r amser mae'r cais yn cael ei ystyried yn gyflawn - hynny ydy fod pob dogfen angenrheidiol wedi ei dderbyn.
Mae'r nifer o geisiadau mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn, a'r cyfartaledd dyddiad prosesu yn gyson, ac yn cael ei gwblhau o fewn amser nodedig. O ganlyniad i flaenoriaethu'r dasg hon, ac i osgoi ymholiadau gan yrwyr yn holi am ddiweddariad ar eu trwyddedau, mae hyn yn creu amser ychwanegol i'r tîm allu ymgymryd a mwy o waith rhagweithiol gan gynnwys e.e. cynnal gwiriadau diogelwch cerbydau trwyddedig sydd yn cludo plant i ysgolion (ar y cyd hefo swyddogion o'r Uned Cludiant).
Mae'r tîm wrth gwrs yn gyfrifol am brosesu sawl math gwahanol o drwyddedau gan gynnwys trwyddedu eiddo, trwyddedu sefydliadau anifeiliaid, yn ogystal a delio'n rheolaidd hefo ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd am faterion Trwyddedu cyffredinol e.e. diffyg cydymffurfio hefo amodau trwydded eiddo).



Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA1- Canran o Fusnesau Bwyd sydd yn cyrraedd Safonau Hylendid Bwyd (sgôr o 3 neu uwch)

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr, defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau

Ar 31/08/26, roedd 2,090 o fusnesau bwyd wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. O'r rhain roedd 2,061 (98.61%) yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch a 29 ddim yn cwrdd â'r safon (1.39%).
Dylai fod pob eiddo sydd ddim yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol yn derbyn ail-ymweliad o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.
Er mwyn tynnu sylw at y maes yma ac i annog y cyhoedd i wirio sgoriau busnesau mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghyd â chyhoeddi negeseuon rhagweithiol ein hunain ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor.
Gellir gweld sgor hylendid bwyd busnesau bwyd Gwynedd drwy ddilyn y linc: https://ratings.food.gov.uk/cy

Canran Busnesau bwyd gyda sgor o 3 neu uwch

98.74%

Amlygu pwysigrwydd safonau a hylendid bwyd





Negeseuon yn amlygu gwaith swyddogion yn cynnal arolygon a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol


Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf



Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA2(a) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Safonau Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Sylwadau

Yn 2026/27 bydd trefn asesu risg newydd yn cael ei fabwysiadu gan Gynghorau Cymru ar gyfer safonau bwyd. Mae'r drefn eisoes yn weithredol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac wedi ei dreialu mewn 2 Gyngor yng Nghymru. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am gyflwyno'r newid ac maent wedi datgan ei fod y newid mwyaf i'r model gweithredu safonau bwyd ar gyfer rheolaethau swyddogol mewn perthynas a chyfraith bwyd ers 30 mlynedd. Un nod o ddiwygio'r model gweithredu oedd lleihau y gofyn gorfodaeth cyfraith bwyd gan Lywodraethau Lleol. Mae ein asesiad dechreuol yn cynnig y bydd angen mwy o adnodd i weithredu'r model diwygiedig nag oedd angen i weithredu'r un blaenorol. Rydym wedi mabwysiadu'r drefn newydd yn ystod mis Ebrill eleni. O ganlyniad mae nifer yr archwiliadau safonau bwyd (oherwydd newidiadau yn y trefniadau asesu) sydd yn ddisgwyliedig ohonom eleni wedi bron i ddyblu o'i gymharu a'r nifer oedd yn ddisgwyliedig flwyddyn diwethaf.
Mae'r drefn asesu risg newydd yn dynodi isafswm amser ymyrraeth ar gyfer busnesau bwyd yn hytrach na categori risg fel yr oedd (A, B, C). Mae'r amrediad isafswm amser ymyrraeth yn 1 mis i 120 mis. Yn fras, gellir ystyried eiddo sydd angen ymyrraeth ymhen mis, 3 mis, 6 mis neu 12 mis yn 'risg uchel', eiddo angen ymyrraeth mewn 24 mis, 26 mis neu 48 mis yn 'risg canolig ' a bob 60 mis, 72 mis neu 120 mis yn 'risg isel'.
Mae'r graff yn arddangos nifer yr eiddo sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer ymyrraeth dan y drefn newydd erbyn diwedd 2026-2027 sy'n cynnwys ôl-groniad o'r flwyddyn flaenorol.
Fel yn arferol, byddwn yn ymdrechu i gwblhau archwiliadau safonau bwyd ac hylendid bwyd ar y cyd. Byddwn hefyd yn ymdrechu i gynnal archwiliadau safonau bwyd (categori ymyrraeth 1 mis i 12 mis) lle nad oes archwiliad hylendid wedi ei raglennu eleni.
Oherwydd diffyg adnodd, nid ydym yn rhagweld y medrwn gyflawni'r holl ymyraethau sydd wedi eu rhaglennu.

Gwarchod y Cyhoedd -Iechyd yr Amgylchedd


IA2(b) - Canran fusnesau bwyd sydd wedi cael arolygiad Hylendid Bwyd yn unol ar amser rhaglenedig.

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans

Pwrpas y Gwasanaeth: Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Sicrhau fod gweithleoedd y Sir yn saff i weithwyr , defnyddwyr a chwsmeriaid a fod cyflogwyr yn cwrdd a gofynion iechyd a diogelwch. Atal achosion o glefyd trosglwyddadwy rhai codi a lle nad yw hyn yn bosib, atal lledaeniad clefyd trosglwyddadwy ymysg y boblogaeth.

Sylwadau

Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser swyddogion rydym yn ymdrechu i gynnal archwiliadau hylendid a safonau bwyd yr un adeg. Bydd swyddogion yn dilyn y rhaglen hylendid bwyd ac yn cwblhau archwiliad safonau bwyd os oes un wedi ei raglennu oddi fewn y 12 mis nesaf neu heb ei gyflawni yn flaenorol.
Oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig roeddem wedi penderfynu mai ffocws ein hymdrech archwilio dros 2025-26 oedd eiddo bwyd risg hylendid uchel (A-C), busnesau newydd.
Mae 'r ffigyrau arolygiad hwyr/ arolygiad sy'n ddyledus yn cynnwys ôl-groniad o flwyddyn diwethaf ac yn adlewyrchu'r ffocws ar gynnal archwiliadau eiddo risg uchel yn ystod 2025-26 - hynny yw, mae'r data yn dangos fod nifer sylweddol o eiddo risg isel angen ymweliad eleni. Oherwydd diffyg adnodd mae'n annhebygol y byddwn yn medru cwrdd a'n targedau archwiliadau erbyn diwedd Mawrth 2027 a byddwn yn canolbwyntio eto ar eiddo risg uchel/ busnesau newydd.





Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA3 - Nifer eiddo ar ddŵr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dŵr ac asesiadau risg yn unol â'r rhaglen am y flwyddyn

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans **Pwrpas y Gwasanaeth:** Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau wedi'i cynnwys ar y daenlen nesaf





Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd

IA3 - Canran o eiddo sydd ar gyflenwad dwr preifat sydd wedi derbyn archwiliad sampl dwr ac asesiadau risg yn unol a'r amserlen rhaglenedig

Enw Rheolwr: Lewis Alun Evans Pwrpas y Gwasanaeth: Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau nac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

Sylwadau

Mae'r gwaith yn statudol er mwyn sicrwydd diogelwch dŵr yfed mewn cyflenwadau gwledig o ffynhonnell breifat. Rydym yn adrodd fesul 12 mis calendr i'r 'Drinking Water Inspectorate' sydd yn rheoleiddio a gwirio gwaith Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau fod cyflenwadau preifat busnesau megis llety gwyliau a gwestai yn darparu dŵr glan diogel i'w cwsmeriaid a staff. Mae ceisiadau rheolaidd hefyd yn dod i samplo cyflenwadau dŵr domestig unigol, ac mae hyn yn ychwanegol i'r llwyth gwaith a adroddir arno, amcangyfrif fod tua 2,000 o gyflenwadau preifat domestig unigol.
Mae'r rhaglen samplo ac asesu risg yn un statudol, tra llwyddir i gynnal y rhan fwyaf o'r samplau ar y rhaglen 12 mis, rydym yn tanberfformio yn sylweddol ar gynnal yr Asesiadau Risg, sydd angen eu cynnal bob 5 mlynedd. Mae swyddogion o'r Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi bod yn cyfrannu at y gwaith rhaglen samplu. Rydym wedi addasu'r mesur perfformiad i adlewyrchu faint o asesiadau risg sydd wedi eu cwblhau dros gyfnod ar nifer sy'n parhau heb eu cyflawni ddiwedd y cyfnod hwnnw. Adroddir perfformiad samplu dŵr yn yr un modd.

Busnes - Swyddfa Cefn

B1 - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau pridiannau tir


Enw Rheolwr: Alison Wyn Owen
Pwrpas y Gwasanaeth: Darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Sylwadau

Mae chwiliadau tir lleol ar gael yn ddigidol ar wefan HMLR i gwsmeriaid ers 12/05/2026, gyda'r trosglwyddiad wedi bod yn llwyddiannus. Roedd Gwynedd ymhlith y cynghorau cyntaf yng ngogledd Cymru i wneud y trosglwyddiad, a'r cyntaf i integreiddio â system IDOX.

Mae chwiliadau CON29 yn parhau o dan gyfrifoldeb y Cyngor. Er mwyn eu cwblhau, mae angen cydweithrediad ac ymateb gan nifer o wasanaethau ac adrannau eraill, gan ddibynnu ar leoliad y chwiliad, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gan bob un o'r gwasanaethau hyn eu heriau penodol, a gall hyn effeithio ar amseroedd ymateb Pridiannau Tir. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'r gwasanaethau perthnasol er mwyn nodi ffyrdd gwell o ymateb i chwiliadau, gyda'r nod o wella ein hamseroedd ymateb yn barhaus.

Nid yw'n arddangos bod nifer ceisidau ni wedi lleihau, mae hyn oherwydd bod ni wedi trosglwyddo chwiliadau Rheolaeth Adeiladu i gyfrifoldeb Uned Pridiannau Tir ers Ebrill 2026 yn dilyn cwynion am amser prosesu, rydym wedi llwyddo i wella'r amser proses gyda phob cais yn cael ymateb o fewn y mis. Rydym yn y proses o gyflwyno cofrestr ddigidol er mwyn darparu ymateb i'r chwiliadau rheolaeth adeiladu yn y dyfodol agos hefyd, yn y cam profi ar hyn o bryd.



Busnes - Swyddfa Cefn

B2 - Canran galwadau sydd yn derbyn ymateb


Enw Rheolwr: Alison Wyn Owen

Pwrpas y Gwasanaeth: Cefnogi swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, drwy darparu gwasanaeth rheng flaen i ymholiadau cwsmeriaid

Sylwadau

Ers trosglwyddo i'r system ffôn Cisco newydd mae'r opsiwn llais-bost bellach yn cynnig profiad gwell i gwsmeriaid, gan eu galluogi i adael neges os yw'r llinell yn brysur.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cynnal, ac o bosib gwella, ein perfformiad yn y cyfnod nesaf wrth i aelod newydd o'r tîm feithrin hyder ac wrth i aelod arall ddychwelyd o gyfnod mamolaeth.



Perfformiad Hyfforddiant Mandadol (Diogelu & Trais yn Erbyn Merched)

Fel Adran, mae negeseuon cyson wedi eu rhannu gyda swyddogion yr Adran i amlygu pwysigrwydd cwblhau'r hyfforddiant mandadol sy'n flaenoriaeth corfforaethol. Mae'r isod yn amlinellu y sefyllfa diweddaraf o ran perfformiad staff swyddfa yr Adran Amgylchedd o ran hyfforddiant **'Diogelu'** a **'Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol' (VAWDASV)**.

Mae **99.5% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Trais a Cham-drin yn Erbyn Merched (VAWDASV)**, gyda'r un staff swyddfa sydd heb gwblhau eto yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Mae **99% o staff swyddfa'r Adran wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu**, gyda'r staff sydd heb gwblhau hyd yma, yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd.

Mae natur gwaith rhai Gwasanaethau'r Adran (ee staff casglu a safleoedd Gwastraff ac Ailgylchu) yn golygu nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur (a phorth hyfforddi) yn rhinwedd eu swydd. Teimlwyd y byddai darparu'r hyfforddiant ar ffurf grŵp yn gyfle i unigolion ofyn cwestiynau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cynnwys yn llawn. O ganlyniad, addaswyd yr hyfforddiant gyda'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau fod modd ei arddangos ar ffurf fideo, a'i fod hefyd yn fwy perthnasol i staff rheng-flaen.

Mae sgriniau pwrpasol wedi eu gosod yn y depos Gwastraff ac Ailgylchu yn y misoedd diwethaf, gyda'r hyfforddiant wedi ei gyflwyno ar ffurf fideo i dros hanner y staff. Mae'r nifer uchel o'r staff sydd eto i gwblhau yn staff achlysurol neu sydd i ffwrdd o'r gwaith ar salwch hir-dymor.

O blith y **215 o staff gweithlu Casglu a Thrin Gwastraff, mae 118 eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu (ffigyrau diwedd Medi)*** trwy'r hyfforddiant diwygiedig, gyda bwriad i sicrhau fod y mwyafrif helaeth o'r staff sy'n weddill yn mynychu'r hyfforddiant dros y misoedd nesaf, ac yna bydd sylw i staff achlysurol maes o law. **(*ar 9/11/26 – ffigyrau yn dangos fod 170 o weithlu Gwastraff ac Ailgylchu wedi cwblhau.)**